

Ar Drywydd Dau Heboglys

Mae'n ddiddorol fel mae casglu llyfrau yn dadlennu gwahanol gyfrinachau i rai ohonom, ac yn fy nghasgliad sy'n ymwneud â hanes Naturiaetheg mae dwy gyfrol sydd wedi bod o gymorth arbennig i mi wrth sbrowta am gynefinoedd planhigion prin dros y blynyddoedd, ac hefyd yn o ddiweddar.

Y mwyaf cynhwysfawr ohonynt yw llyfr J.E. Griffith *The Flora of Anglesey and Carnarvonshire* (1894/5) a'r llall yw cyfrol 30 tudalen sy'n dwyn y teitl *Samuel Brewer's Diary* a gyhoeddwyd yn 1931 o Adroddiad y Botanical Exchange Club am 1930. Ymdriniais yn flaenorol yn *Y Casglwr* (gw. rhif 71, tt 3 a 7) â llyfr J.E. Griffith felly dyma grynodedb byr o ddyddiadur Samuel Brewer a fu ar ymweliad â Gogledd Cymru ar daith lysieua yn 1726 gyda'r Athro Dillenius o Rydychen. Dychwelodd Dillenius i Rydychen ond arhosodd Brewer am y flwyddyn ddilynol gan gofnodi ei amryw ddarganfyddiadau botanegol, ynghyd â'i wahanol deithiau ym Môn ac Arfon, yn ei ddyddiadur. Mae'r dyddiadur gwreiddiol ar goll ond erys arysgrif ohono yn Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Daeth yno yn 1927 gyda chasgliad o lyfrau a oedd yn perthyn i J.E. Griffith ac mae'r dyddiadur wedi ei lofnodi ar y dudalen deitl fel a ganlyn: 'H. Davies, 1776, F.L.S., 1790' ac yn dilyn: 'R. Brisco Owen'. Ymddengys mai Hugh Davies, awdur y *Welsh Botany*, oedd perchennog yr arysgrif hon ar un adeg. Mae arysgrif arall o ddyddiadur Brewer yn llyfrgell Iarll Derby yn Knowsley Hall a fu unwaith ym meddiant William Hudson, awdur y *Flora Anglica* (1762). Y cyfrolau hyn, ynghyd â'r drydedd gyfrol o *Atgofion Tri Chwarter Canrif* J. Lloyd Williams, yw prif ffynonellau'r ysgrif hon.

J.E. Griffith a Heboglys Eryri:

Mae Heboglys Eryri (*Hieracium snowdoniense*) yn flodyn prin, cwbl endemig ac yn gyfyngedig i ychydig safleoedd yn Eryri, a'r hyn a dynnodd fy sylw ato gyntaf oedd darllen amdano yng ngwaith mawr R.



Heboglys Eryri. (LLUN: SCOTT HAND)



Heboglys Hardd. (LLUN: YR AWDUR)

Gwynn Ellis *The Flowering Plants of Wales* (1983; gw. t157). Sylwais, o edrych am gofnod o'r planhigyn yn *Flora* J.E. Griffith (t 86), fod ei hanes yn o ddrislyd, a dweud y lleiaf. Ynddo, fe'i adwaenir fel *Hieracium murorum* var. *pulcherrimum* ac enwir dwy safle lle y'i gwelwyd yn tyfu, Cwm Perfedd uwchlaw Nant Ffrancon, a'r Ysgolion Duon ar Garnedd Dafydd. Erbyn heddiw cydnabyddir tua 400 o ficororywogaethau o deulu'r Heboglys ym Mhrydain ac mae'n parhau i gael ei adolygu gan arbenigwyr.

Cododd J.E. Griffith sbesimen o Heboglys Eryri yn 1892 o'r Ysgolion Duon ac mae'r planhigyn, sydd wedi ei sychu a'i ludo ar ddolen lân o bapur, ar gadw yn Herbariwm Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, Caerdydd. Ceir dolen gyffelyb yn dangos sbesimen a gasglwyd o Garnedd Dafydd yn 1904 gan y Parch. Augustin Ley yno yn ogystal. Methais â dod ar draws gyfeiriad cadarnhaol arall am gasglu Heboglys Eryri yn ystod yr 20 ganrif nes gweld bod y prif arbenigwr ar y tylwyth, sef P.D. Sell o Gaergrawnt, wedi bod yng Nghwm Idwal yn 1953 ac wedi cael hyd iddo ar greigiau ger y Twll Du. Roedd hon yn safle nas cofnodwyd yn *Flora* J.E. Griffith.

Ail-ddarganfuwyd un planhigyn o Heboglys Eryri yng Nghwm Idwal, bron hanner can mlynedd yn ddiweddarach, yn

ystod mis Gorffennaf 2002 ar y cyd gan aelodau o staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Amgueddfa Genedlaethol. Cyhoeddwyd hanes yr ail-ddarganfyddiad gan y papurau newydd fel 'y planhigyn prinnaf yn y byd', ac yn ddiweddarach casglwyd ychydig hadau o'r planhigyn ar gyfer eu meithrin yng Ngerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru. Priodolir y lleihad yn niferoedd Heboglys Eryri erbyn heddiw, o'i gymharu â dyddiau J.E. Griffith, i law asidig a'r cynnydd mawr a fu mewn defaid yn pori ar y mynyddoedd dros yr hanner can mlynedd diwethaf.

J. Lloyd Williams, Samuel Brewer a'r Heboglys Hardd:

Darllenais yn hunangofiant J. Lloyd Williams (gw. *Atgofion Tri Chwarter Canrif* iii, t. 95) amdano yn sylwi ar yr Heboglys Hardd (*Hieracium holosericeum*) ar gopa Tryfan tra'n hogyn ysgol, a dyna danio fy chwilyfrydedd yn y planhigyn hwn am y tro cyntaf. Derbyniais gyfarwyddyd parod y diweddar Evan Roberts, Capel Curig, at safle a wyddai ef amdani yng nghyffiniau Llyn y Cŵn yng nghesail y Glyder Fawr, ond er chwilio'n ddyfal a gweld sawl rhosglwm o ddaill blewog ar y creigiau, ni lwyddais yr adeg honno i ddarganfod y planhigyn yn flodeuog.

(Parhad ar dudalen 15)